

Llesiant yn Sir Gaerfyrddin: Yr hyn rydyn ni'n ei wybod

Beth ydyn ni yn ei wneud?

Mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Gorllewin Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i asesu cyflwr llesiant pobl a chymunedau lleol, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Gall llawer o bethau ddylanwadu ar les ein unigolion a'n cymunedau, megis ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, dyma'r pethau rydyn ni eisoes yn eu gwybod am ein lles yn Sir Gaerfyrddin (gweler y tudalennau canlynol), **ond mae angen i ni ddarganfod beth rydych chi'n meddwl sy'n effeithio ar eich lles**. Trwy gwblhau'r [arolwg](#) byddwch yn helpu i lunio dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yn eich cymuned.

Bydd y wybodaeth a roddwch inni yn cael ei defnyddio, ynghyd â thystiolaeth arall, i gynhyrchu ein hasesiad o les lleol Sir Gaerfyrddin. Yna bydd yr Asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lunio ein Cynllun Llesiant Lleol nesaf Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023-28. Bydd y Cynllun yn nodi ein hamcanion Llesiant ac yn gweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Gaerfyrddin.

Sut allwch chi gymryd rhan?

- Cymerwch rhan yn ein arolwg rhanbarthol
- Cysylltwch â ni i fynegi eich diddordeb mewn gweithgareddau eraill




Nodau Llesiant

Er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn gweithio i'r un weledigaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Bydd angen i'n gwaith gyflawni'r Nodau Llesiant hyn.

I ddarganfod mwy ewch i:

<https://www.futuregenerations.wales/cy>



Os hoffech gael copi o'r arolwg ar bapur neu mewn fformat hygyrch arall, neu os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â ni trwy:

E-bost: gwybodaeth@ysirgaragarem.cymru

Ffôn: 01267 234567

Cyfeiriad: Tîm Polisi a Phartneriaeth, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP.

Llesiant yn Sir Gaerfyrddin: Yr hyn rydyn ni'n ei wybod

Demograffeg

Y bedwaredd sir fwyaf poblog Mae gan Sir Gaerfyrddin y bedwaredd boblogaeth uchaf yng Nghymru, sef 190,073. <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>	Wedi'i rannu'n weddol gyfartal rhwng dynion a menywod Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi'i rhannu'n weddol gyfartal rhwng menywod (51.1%) a dynion (48.9%). <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>
Poblogaeth yn cynyddu Ar hyn o bryd mae'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu oddeutu 0.7%. Mae'r cynnydd hwn i'w weld yn bennaf yn y grŵp oedran 65+. <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>	Ymfudo net yn cynyddu Yn ystod y degawd diwethaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi profi cynnydd parhaus mewn mudo net. Mae'r mudo rhyngwladol net a'r mudo mewnol net wedi bod yn gwbl gadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn. Rhwng 2018 a 2019 mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld cynnydd o 19% mewn mudo net. <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>
Mae bron i ¼ o'r boblogaeth yn 65+ Mae plant 0-15 oed yn 17% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin; Mae 59% yn 16-64 oed a 24% yn 65+ <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>	Nifer y genedigaethau sy'n is na nifer y marwolaethau Mae newid naturiol yn negyddol ledled Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu bod mwyafrwy o farwolaethau yn y boblogaeth na babanod sy'n cael eu geni. Gwelodd 2019-2020 ostyngiad o 6% yn y babanod a gafodd eu geni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 5% yn nifer y marwolaethau. <i>Ffynhonnell: StatsWales</i>

Mae lefelau cyflogaeth yn is na chyfartaledd Cymru

Mae bron i **70%** o boblogaeth oedran gweithio Sir Gaerfyrddin yn **gweithio (69.7%)** Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 72.8%.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion Rhagfyr 2020

Mae'r nifer hunangyflogedig yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau

Roedd **10,700** yn hunangyflogedig yn Sir Gaerfyrddin ym mis Rhagfyr 2020 (bron i **15%** o'r rheini mewn cyflogaeth) o'i gymharu â 13% yn genedlaethol. Mae hyn wedi lleihau ers y flwyddyn flaenorol pan oedd 13,400 yn hunangyflogedig, dros **17%** o'r rheini mewn cyflogaeth.

Ffynhonnell: : Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion Rhagfyr 2020

Mae'r prif gyflogwyr yn y Sector Cyhoeddus

Mae ychydig llai na **1/3** o weithwyr Sir Gaerfyrddin yn gweithio yn y **sector cyhoeddus** (prifysgolion, ysgolion, iechyd a llywodraeth leol).

Ffynhonnell: StatsWales

Incwm cartref ymhlith yr uchaf yng Nghymru

Y cyflog wythnosol ar gyfartaledd yn Sir Gaerfyrddin yw **£572** sef y trydydd uchaf yng Nghymru. Mae hyn o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru o **£542**, a chynnydd o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion - 2020

Helpu ein busnesau i oroesi yn ystod COVID

Yn ystod 2020/21 gwnaethom helpu dros **4,000 o fusnesau** i dderbyn taliadau grant cyfraddau busnes Llywodraeth Cymru rhwng £10,000 a £25,000 gyda chyfanswm o dros £46 miliwn.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Mae Cyfrif yr Hawlwyr wedi cynyddu'n sylweddol

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn Sir Gaerfyrddin, oherwydd eu bod yn ddi-waith, wedi cynyddu **89% ers mis Mawrth 2020** pan aeth y genedl mewn i gyfnod clo yn sgil pandemig COVID-19, hyd at fis Mawrth 2021.

Ffynhonnell: Stats Explorer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Sir Gaerfyrddin Gwydn

Deg Gwarchodfa Natur Leol yn Sir Gaerfyrddin

Mae gennym **dddeg Gwarchodfa Natur leol** yn Sir Gaerfyrddin. Mae pump ohonynt wedi'u lleoli yn ardaloedd cyfagos Llanelli, mae tri ger Llandeilo a dau yn ardal Llanymddyfri. Dynodwyd y safleoedd hyn oherwydd eu pwysigrwydd o ran gwerth bywyd gwyllt, eu mwynhad cymunedol a'u haddysg.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

Buddion Bioamrywiaeth

Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o gymdeithas gynaliadwy a chadarn yn Sir Gaerfyrddin.

Mae **81 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SSSI) yn y sir (ac eithrio'r ardal ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) sy'n gorchuddio **17,088 Ha** ac yn amrywio o ran maint o gaeau bach i ardaloedd mawr o ochrau mynyddoedd ac afonydd hir. Maent yn cwmpasu oddeutu 7.2% o'r sir. Mae rhai o'r rhain hefyd yn ffurfio'r tair Ardal Amddiffyn Arbennig ac wyth Maes Cadwraeth Arbennig, safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Rydym yn lleihau ein hallyriadau carbon deuocsid

Rydym yn **lleihau allyriadau CO2** yr ydym yn eu cynhyrchu fesul person yn Sir Gaerfyrddin. Er enghraifft, ar gyfartaledd roedd person yn Sir Gaerfyrddin yn **cynhyrchu 6.0 kt CO2 y pen yn 2018** gan ostwng i **5.7 kt CO2 yn 2019**. Y cyfartaledd yng Nghymru yw 7.6 ac nid yw'n syndod bod hyn yn cynyddu i 50.0 kt CO2 mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, oherwydd uchel lefel y Diwydiant.

Ffynhonnell: Llywodraeth y DU - Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Mae ein traethau o ansawdd rhagorol

Mae dau draeth Dŵr Ymdrochi Dynodedig yr UE yn Sir Gaerfyrddin, sef Pen-bre a Pendine, ac maent o ansawdd rhagorol.

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Asesiad Digonolrwydd Chwarae Sir Gaerfyrddin

Nododd Asesiad Digonolrwydd Chwarae Sir Gaerfyrddin (2019) fod plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol yn nodi **eu bod yn fodlon ar eu cyfleoedd chwarae**.

Fodd bynnag, roedd taflu sbwriel, yn enwedig sigarêts a photeli gwydr, yn broblem yn eu lleoedd chwarae. Mae rhieni / gofalwyr yn poeni am ddiogelwch eu plant ac yn aml yn ei chael hi'n anodd eu gadael allan i chwarae.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr – Asesiad Digonolrwydd Chwarae (2019)

Ansawdd Aer Da

Mae ansawdd aer yn Sir Gaerfyrddin ar y cyfan yn weddol dda, er enghraifft, yn 2019 roedd ein lefel crynodiad NO2 ychydig **yn llai na 6**, o'i gymharu â **9 yn genedlaethol**. Er bod rhai meysydd pryder fel Llandeilo.

Ffynhonnell: StatsWales

Sir Gaerfyrddin Iachach

Mae plant dros bwysau neu ordewdra yn parhau i gynyddu yn Sir Gaerfyrddin

Mae gan Sir Gaerfyrddin y **5ed lefel uchaf** o blant sydd dros **bwysau neu ordewdra (30.4%)** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 26.6% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 26.9%.

Ffynhonnell: Rhaglen Mesur Plant GIG Cymru (2018/19)

Plant yn cymryd rhan mewn o leiaf dri achlysur o weithgaredd yr wythnos

Mae **47.7% o blant ysgol rhwng 3 ac 11 oed** yn **cymryd rhan mewn o leiaf dri achlysur** o weithgaredd yr wythnos, mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 47.6%.

Ffynhonnell: Chwaraeon Cymru - Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018

Canran uchel o oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau gweithgaredd corfforol

Mae **55.6% o oedolion** yn Sir Gaerfyrddin yn cwrdd â'r canllawiau gweithgaredd corfforol, mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 53.1%.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018/19 - 2019/20)

Mae nifer yr oedolion (16+) sy'n ysmegu yn lleihau

Mae **16.2%** o oedolion 16+ oed yn Sir Gaerfyrddin yn ysmegu, mae hyn yn ostyngiad o 16.6% yn y cyfnod blaenorol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018/19 - 2019/20)

Disgwyliad oes cyfartalog

Yn Sir Gaerfyrddin, ar gyfartaledd mae **dynion yn byw i 77.8 mlynedd**, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 78.3 blynedd. Mae disgwyliad oes cyfartalog menywod yn Sir Gaerfyrddin yr un fath â chyfartaledd Cymru o 82.3 blynedd.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae gan gyfran uwch na'r cyfartaledd o'r boblogaeth anabledd

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd o'i phoblogaeth gyda **chyflwr tymor hir cyfyngol ar 23.8%** o'i gymharu â 22.7% yn genedlaethol. I'r gwrthwyneb, mae'r **gyfran heb gyflwr tymor hir cyfyngol** ychydig yn is na'r cyfartaledd ar **74.6%** o'i gymharu â 77.3%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae gan oedolion o oed gweithio gymwysterau da

Mae 81% o oedolion o oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin yn gymwys i Lefel 2 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) gyda 41% yn gymwys i NQF Lefel 4 neu'n uwch.

Ffynhonnell: StatsWales

Bwlch rhwng cyfradd cyflogaeth anabl a heb fod yn anabl

Yn Sir Gaerfyrddin, roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y **rhai heb anabledd (77.5%)** yn sylweddol uwch na'r **rhai ag anabledd (48%)**. Golyga hyn bod bwlch cyflogaeth anabledd o 29.5 pwynt canran. Mae hyn yn is na'r bwlch cyflogaeth anabledd cyfartalog cenedlaethol o 31.1%.

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion Rhag 2020

Bwlch mewn canlyniadau arholiadau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim

Roedd y **bwlch rhwng canlyniadau arholiadau** ar gyfer disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim a'r rhai nad ydynt yn **17.9%** (Blwyddyn Academaidd 2018/19) ond mae hyn wedi **lleihau o fwllch o 19.7%** yn y flwyddyn flaenorol. Dyma'r 7fed bwlch lleiaf yng Nghymru.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr / Llywodraeth Cymru

Mae ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn dda neu'n rhagorol

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfanswm o **112 o ysgolion**. Bernir bod ysgolion a arolygwyd yn ddiweddar gan Estyn yn **cyflawni cynnydd dysgwr da neu ragorol** gyda dim ond ychydig iawn o'r ysgolion sydd wedi'u gosod yng nghategori dilynol Estyn.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Mae dros draean o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fyw mewn tldi

Yn ystod 2020, diffiniwyd fod **27,691 o aelwydydd** yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tldi, mae hyn yn gynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol o 27,576.

Ffynhonnell: CACI Paycheck - Diffinnir tldi fel pan fydd "incwm cartref yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr" (yn 2020 yn llai na £ 19,967)

Mae niferoedd o blant sy'n byw mewn tldi yn cynyddu

Roedd **31.3% (bron i 10,500) o blant** yn Sir Gaerfyrddin yn **byw mewn tldi**, o'i gymharu â 29.3% (9,720) yn 2018/19. Mae canran y plant sy'n byw mewn **cartrefi di-waith (8.7%)** yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (10.5%).

Ffynhonnell: Dangosyddion Tldi Plant Llywodraeth y DU 2019/20

Sir Gaerfyrddin o Gymunedau Cydlynus

Mae gan drigolion Sir Gaerfyrddin ymdeimlad o gymuned

Mae **52%** o drigolion Sir Gaerfyrddin yn credu bod ganddyn nhw **ymdeimlad da o gymuned** yn eu hardal leol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20

Amddifadedd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Mae **15%** o drigolion Sir Gaerfyrddin mewn amddifadedd incwm, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16%. Mae **11%** o bobl o oedran gweithio mewn **amddifadedd cyflogaeth**, o'i gymharu â 10% yn genedlaethol. Mae **13.9%** o drigolion mewn **amddifadedd iechyd**, o'i gymharu â 14.3% yn genedlaethol.

Ffynhonnell: StatsWales

Trigolion Sir Gaerfyrddin yn trin ei gilydd â pharch

Mae **79%** o drigolion Sir Gaerfyrddin yn credu bod **pobl yn trin ei gilydd â pharch** yn eu hardal, mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 75.6%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20

Mae'r preswylwyr yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw

Nododd **88.4%** o drigolion Sir Gaerfyrddin eu **bod yn fodlon ar eu hardal leol** fel lle i fyw, mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 85.3%.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20

Mae prisiau tai yn is na'r cyfartaledd

Mae prisiau tai yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i gynyddu, gyda chynnydd o 5.6% rhwng Ionawr 2020 ar £153,222 i **Ionawr 2021 ar £162,338**. Mae hyn yn parhau i fod yn is na'r pris tŷ cyfartalog cenedlaethol ym mis Ionawr 2021 o £178,907.

Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir

Dylanwadu ar benderfyniadau lleol

Dim ond **19%** o drigolion Sir Gaerfyrddin 16+ sy'n teimlo y gallant **ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol**. Mae hyn yn hafal i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20

Trigolion Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, diwylliant neu dreftadaeth

Mae **64%** o drigolion Sir Gaerfyrddin yn mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth **o leiaf 3 gwaith** y flwyddyn, mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 71%.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20

Annog Cymraeg yn y Gweithle

Mae'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg yn gweithio gyda llawer o bartneriaid er mwyn **darparu darpariaeth gymunedol a Gweithio Cymraeg** ledled y sir.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg

Gall **44%** o drigolion siarad Cymraeg, y 4edd ganran uchaf yng Nghymru, mae hyn yn cyfateb i **78,000 o siaradwyr**, sef y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Cyfran uchel o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Mae **112** o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, sy'n darparu darpariaeth dysgu cynradd, uwchradd ac arbenigol ar gyfer eu 27,000 o ddysgwyr. Addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu ddwyieithog, gan sicrhau bod Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflwyno'n ysbrydoledig.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Mae theatrau'n dod o hyd i ffyrdd arloesol o weithredu

Roedd y cyfnod clo yn gyfle i weithredu ar-lein, mewn ffordd arloesol, a fyddai’n cefnogi lles trigolion Sir Gaerfyrddin yn ystod yr amseroedd anodd. Cynhaliodd ein Theatrau gigs byw a fyddai’n apelio at gynulleidfa ifanc ac yn darparu gwaith mawr ei angen ar gyfer bandiau ifanc o Gymru. Denodd perfformwyr fel Gwilym ac Eädyth gynulleidfa o 10,277 o wylwyr ar lwyfannau ar-lein.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Llwybrau Celtaidd

Mae’r **Llwybrau Celtaidd** yn bartneriaeth rhwng cymunedau arfordirol Cymru yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a’n cymheiriaid Gwyddelig yn Wicklow, Wexford a Waterford.

Gwnaeth y bartneriaeth gais llwyddiannus i raglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer ail gam. Bydd yr ail gam hwn, gwerth **£1.5 miliwn** ychwanegol, yn mynd â’r prosiect ymlaen i 2023.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Sir Gaerfyrddin sy'n Gyfrifol yn fyd-eang

Hanes rhagorol o ailgylchu

Mae trigolion Sir Gaerfyrddin wedi helpu i ailgylchu **66%** o'u gwastraff ac rydym yn parhau i ragori ar dargedau statudol Llywodraeth Cymru (64% Mawrth 2020) gan osgoi unrhyw gosbau ariannol.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Mae risg o lifogydd yn uchel

Yn Sir Gaerfyrddin, amcangyfrifir bod **nifer uchel o eiddo mewn perygl o lifogydd**. Mae tua 5,600 o eiddo mewn perygl o lifogydd afon, mae 7,000 mewn perygl o lifogydd ar yr wyneb ac mae 2,600 o eiddo mewn perygl o lifogydd Llanw.

Ffynhonnell: StatsWales - 2019

Cynyddu ein Ynni Adnewyddadwy

Mae gan Sir Gaerfyrddin yr ail nifer uchaf o brosiectau ynni adnewyddadwy sef **6,119, er mwyn cynhyrchu gwres a thrydan adnewyddadwy**. Mae hyn yn cyfateb i dros 8% o'r holl brosiectau Ynni Carbon Isel yng Nghymru (72,834).

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru - Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2019

Y cynllun gweithredu di-garbon net cyntaf yng Nghymru

Ym mis Chwefror 2020, daeth Cyngor Sir Caerfyrddin yr awdurdod lleol **cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd** yn manylu ar sut rydym yn gweithio tuag at ddod yn **sero carbon net yn y 10 mlynedd nesaf**. Ni oedd un o'r cynghorau cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan addo dod yn sero carbon net erbyn 2030 - 20 mlynedd o flaen targedau llywodraeth Cymru a'r DU.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

Rhaglen ailsefydlu lwyddiannus

Ers mis Mehefin 2016, mae Sir Gaerfyrddin wedi ailsefydlu **38 o deuluoedd ffoaduriaid (172 o unigolion)** o Syria. Mae dros 30 o deuluoedd yn dal i fyw yn y Sir.

Ym mis Mehefin 2021 cawsom **dri theulu (15 unigolyn) o Afghanistan**. Roedd un aelod o bob teulu wedi bod yn gweithio gyda lluoedd arfog y DU neu lywodraeth y DU. Byddai bywydau'r teuluoedd hyn wedi bod mewn perygl yng ngoleuni tynnu'r DU, yr UD a lluoedd perthynol eraill o'r wlad yn ôl. Mae ein teuluoedd i gyd yn cael eu hailsefydlu i ddechrau mewn llety rhent preifat o ansawdd da, wedi'i reoli i safon uchel gan dîm Gosod Syml y Cyngor.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Gâr

